**ATODIAD 7 - DADANSODDIAD O HOLIADUR CYNGHORAU CYMUNED A THREF - YMCHWILIAD CRAFFU Y BROSES CYNLLUNIO**

| **Ydych chi'n glir beth ydi rôl cyngor cymuned / tref yn y broses cynllunio?** | **Ydych chi wedi derbyn hyfforddiant ar bolisiau cynllunio?** | **Sut ydych chi'n derbyn gwybodaeth am geisiadau cynllunio yn eich ardal?** | **Pa mor fodlon ydych chi gyda'r ffordd yr ydych yn derbyn gwybodaeth / ymateb i ymholiad?** | **Oes yna rwystrau i gyflwyno sylwadau'r cyngor cymuned / tref ar geisiadau cynllunio?** | **Beth hoffech ei weld yn digwydd i wella'r profiad o ddelio gyda cheisiadau cynllunio?** |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydw | Rhai aelodau | Trwy'r clerc | Bodlon | Oes, gofyn am estyniad weithiau | Awyrgylch y swyddfa yng Nghaernarfon angen bod yn fwy croesawgar, teimlad anghyfforddus cerdded i mewn yno. |
| | | | | | Canlyniad cais cynllunio<br>a) i'w gael yn y gorffennol<br>b) dim byd rwan<br>c) popeth ddim ar y we.<br><br>Ma hyn yn gwneud hi'n anodd barnu ceisiadau - yn arbennig os oes amodau rheoli wedi ei roi yn y gorffenol.<br>Gall hyn greu anghysondeb rhwng gwahanol bentrefi. |
| Ydw | Nac ydw | Trwy'r post | Bodlon | Nac oes | Derbyn manylion penderfyniad ar geisiadau sy'n effeithio ar Corris drwy'r post i'r clerc |
| Ydw | Nac ydw | Eu derbyn drwy'r post | Bodlon | Nac oes | Hoffwn petae y penderfyniadau yn cael eu hanfon ataf. |
| Ydw | Nac ydw | Ar ffurf papur gan y gwasanaeth cynllunio. | Anfodlon, mae ymatebion yn cymryd llawer iawn gormod o amser. | Oes. Diffyg amser / 21 diwrnod. | Ymateb o fewn y mis. |
| Rhannol | Ydw, drwy ddilyn canllawiau yn y llyfryn | Derbyn copiau gan y clerc, o'r cyngor ac yn trafod yn pwyllgor o'r cyngor cymuned. | Anfodlon. Cyngor Cymuned yn cael eu hanwybyddu gan y Swyddogion Cynllunio. Dylai barn y cyngor cymuned gael llawer mwy o ddylanwad ar geisiadau cynllunio. Dylai barn y trigolion Cymraeg lleol gael llawer mwy o ddylanwad ar geisiadau cynllunio. | Oes, Llawer o drigolion lleol yn swil / nerfus o wneud cyflwyniad yn y pwyllgor cynllunio. | Oherwydd nad yw swyddogion yn cymeryd sylw o sylwadau Cyngor Cymuned mae yn anodd iawn cael trigolion lleol i fod yn gynghorwyr cymuned.<br>Angen mwy o gydweithio rhwng adrannau'r Cyngor Sir, er enghraifft, Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.<br>Angen cryfhau rheoli a gorfodaeth a chosbi llym os na fydd cydymffurfio.<br>Angen lleol. |

| Ydych chi'n glir beth ydi rôl cyngor cymuned / tref yn y broses cynllunio? | Ydych chi wedi derbyn hyfforddiant ar bolisiau cynllunio? | Sut ydych chi'n derbyn gwybodaeth am geisiadau cynllunio yn eich ardal? | Pa mor fodlon ydych chi gyda'r ffordd yr ydych yn derbyn gwybodaeth / ymateb i ymholiad? | Oes yna rwystrau i gyflwyno sylwadau'r cyngor cymuned / tref ar geisiadau cynllunio? | Beth hoffech ei weld yn digwydd i wella'r profiad o ddelio gyda cheisiadau cynllunio? |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydw | Nac ydw | Trwy'r post | Bodlon | Nac oes | Popeth yn iawn efo'r broses. |
| Ydw | Ydw | Trwy'r post | Bodlon | Nac oes | Fod yr Adran Cynllunio / Cyngor Gwynedd yn plismona ceisiadau llawer fwy trylwyr. Gweler mewn pentrefi sawl enghriefftiau o siediau amaethyddol yn cael eu caniatau ac yn newid defnydd heb unrhyw weithrediad gan Cyngor Gwynedd. Yn ychwanegol gwelir ceisiadau ac siediau amaethyddol yn cael eu caniatau i tir feddianwyr sydd hefo ychydig o dir o gwmpas ei tai, ac mae'r siediau yn cael ei defnyddio i bopeth ond amaethyddiaeth. |
| Nac ydw, erioed wedi cael ei egluro yn iawn i mi ac mi fydda templed clercod newydd o fantias. | Nac ydw ddim ar y polisiau. | Derbyn yn y post ac ar ebost gan Adran Cynllunio. | Bodlon. Heblaw bod yr amserlen weithiau yn dynn oherwydd amseriad cyfarfodydd. | Oes, weithiau yr amserlen. | Templed syml i glercod yn nodi beth yw'r disgwyliadau a cwrs hyfforddiant sydd yn defnyddio ceisiadau byw i siarad trwy sut fysa chi yn disgwyl rhywun ymateb. Y teimlad ydi bod ni yn unai cytuno neu anghytuno ond yn wir fel clerc ddim yn teimlo bod ni yn gwneud daioni o fewn y system a bod lle i wella yn sylweddol. Angen dealltwriaeth gwell o bolisiau cenedlaethol a lleol a mi fyddai hynny yn MANTAIS MAWR. |
| Ydw | Nac ydw | Gan y clerc. | Anfodlon. Angen cael ymateb heb orfod gofyn. | Oes. Y ffaith bod rhaid cyflwyno sylwadau o fewn 21 diwrnod ac efallai nad yw'r Cyngor yma'n cyfarfod yn ystod y cyfnod yma. | Dylai barn cynghorau cymuned a thref gael mwy o sylw na barn unigolyn fel mae'r drefn bresennol. Felly dylai barn cyngor cymuned a thref sy'n wahanol i farn y swyddogion cynllunio olygu bod cais yn mynd yn syth i'r Pwyllgor Cynllunio. |
| Ydw | Ydw | Cyngor Cymuned | Bodlon | Nac oes | - |
| Ydw | Nac ydw | Drwy'r post brenhinol | Bodlon | Nac oes | Dim newid. |

| **Ydych chi'n glir beth ydi rôl cyngor cymuned / tref yn y broses cynllunio?** | **Ydych chi wedi derbyn hyfforddiant ar bolisiau cynllunio?** | **Sut ydych chi'n derbyn gwybodaeth am geisiadau cynllunio yn eich ardal?** | **Pa mor fodlon ydych chi gyda'r ffordd yr ydych yn derbyn gwybodaeth / ymateb i ymholiad?** | **Oes yna rwystrau i gyflwyno sylwadau'r cyngor cymuned / tref ar geisiadau cynllunio?** | **Beth hoffech ei weld yn digwydd i wella'r profiad o ddelio gyda cheisiadau cynllunio?** |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydw | Nac ydw | Y clerc | Anfodlon. Anodd cael cyswllt gyda Swyddog Cynllunio. | Nac oes | Mi fydd Cyngor Tref Tywyn yn symud i system ble maent yn cynnal Pwyllgorau Cynllunio yn rheolaidd - bob tair wythnos - er mwyn ystyried ceisiadau cynllunio, yn lle'r drefn bresennol o gynnal Pwyllgorau Cynllunio yn ad hoc. |
| Ydw | Nac ydw | Derbyn rhestr ceisiadau yn wythnosol gan y Cyngor. | Anfodlon. Rydym yn derbyn cydnabyddiaeth o sylwadau, ond rhan amlaf, ni cheir ateb pellach. | Oes. Yr amser a roddir i roi sylwadau. Mae'r Cyngor yn cyfarfod yn fisol. Os yw'r dyddiad cau yn gynt na'r cyfarfod nesaf, mae'r clerc yn hysbysu'r cynghorwyr. Nid ydym yn cael amser i drafod fel Cyngor. | Os yw'r Cyngor yn gwrthwynebu cais, teimlir mae yr un llais sydd ganddynt ac unigolyn yn gwrthwynebu. Dylai gwrthwynebiad gan 16 o Gynghorwyr fod yn sail i edrych yn ddyfnach ar y cais. |
| Ddim yn siwr | Nac ydw | Hwyr | Anfodlon. Dim sylw yn cael ei roi i'n sylwadau. | Nac oes | Cymryd mwy o sylw o sylwadau a wneir gan gynghorwyr lleol. Dylid rhoi mwy o resymau cynllunio pan yn derbyn / gwrthod cais yn groes i gyngor Cyngor Cymuned. |
| Ydw | Mae rhai ohonom wedi cael hyfforddiant ar bolisiau cynllunio - Cenedlaethol a lleol. | Trwy'r clerc | Ar y cyfan bodlon. Fodd bynnag, hoffem gael gwybod am ganlyniad unrhyw gais cynllunio yr ydym fel cyngor Cymuned wedi gwneud sylw arno. Fodd bynnag, rydym yn derbyn y byddai hyn yn golygu baich weinyddol ychwanegol i'r Cyngor. | Nac oes | Dim sylwadau. |
| Ydw | Nac ydw | Drwy'r clerc. | Bodlon | Oes. Amserlen cyfarfodydd cynghorau cymuned. | Rhywun o'r adran cynllunio yn dod i siarad am y broses. |

| Ydych chi'n glir beth ydi rôl cyngor cymuned / tref yn y broses cynllunio? | Ydych chi wedi derbyn hyfforddiant ar bolisiau cynllunio? | Sut ydych chi'n derbyn gwybodaeth am geisiadau cynllunio yn eich ardal? | Pa mor fodlon ydych chi gyda'r ffordd yr ydych yn derbyn gwybodaeth / ymateb i ymholiad? | Oes yna rwystrau i gyflwyno sylwadau'r cyngor cymuned / tref ar geisiadau cynllunio? | Beth hoffech ei weld yn digwydd i wella'r profiad o ddelio gyda cheisiadau cynllunio? |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydw | Nac ydw (ond yn ymwybodol ei fod ar gael yn achlysurol) | Gan Cyngor Gwynedd ar bapur. Amseru ddim bob amser yn cyd-fynd efo amserlen ymateb. | Anfodlon. Nid ydym yn cael gwybod y canlyniadau. Mae'n amhosib cael gafael ar swyddog i ateb unrhyw ymholiad. Yn aml iawn derbynnir ceisiadau yn rhy hwyr i wneud unrhyw sylw / gwrthwynebiad. | Oes. Amser - derbyn ceisiadau yn rhy hwyr i fedru rhoi sylw. O dan yr hen drefn roedd bob cynghorydd sir ar y pwyllgor cynllunio. Maent bellach wedi eu hamddifadu o'r fraint o wneud sylw. | Mae barn Cyngor Tref yn bwysig gan eu bod yn adnabod yr ardal yn dda, yn cynrychioli barn pobl lleol. Mae ymwybyddiaeth o ardal / tir yn hanfodol. Dylsem gael gwybod y canlyniadau. Mae amod 106 yn cael ei ddiddymu yn rhy hawdd ac yn tanseilio ei angen a'i werth. Dylid adfer y broses ddemocrataidd yma o ystyried ceisiadau cynllunio mewn pwyllgorau mwy lleol. Dylid cael mwy o gynghorwyr lleol yn rhan o'r broses. |

| Ydych chi'n glir beth ydi rôl cyngor cymuned / tref yn y broses cynllunio? | Ydych chi wedi derbyn hyfforddiant ar bolisiau cynllunio? | Sut ydych chi'n derbyn gwybodaeth am geisiadau cynllunio yn eich ardal? | Pa mor fodlon ydych chi gyda'r ffordd yr ydych yn derbyn gwybodaeth / ymateb i ymholiad? | Oes yna rwystrau i gyflwyno sylwadau'r cyngor cymuned / tref ar geisiadau cynllunio? | Beth hoffech ei weld yn digwydd i wella'r profiad o ddelio gyda cheisiadau cynllunio? |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydw | Nac ydw. Ar y cyfan, nid yw'r Cyngor wedi derbyn hyfforddiant ar bolisiau cynllunio Cenedlaethol a lleol ond mae un aelod, sef y Cynghorydd Sir wedi derbyn cyngor. | Mae y Cyngor yn derbyn gwybodaeth am geisiadau cynllunio yn yr ardal ar e-bost hy rhestrau cynllunio yn cael eu cylchredeg.<br>Hefyd mae yna ebyst uniongyrchol a chopi caled yn y post o rhai priodol. Nodir fodd bynnag na fydd rhain yn cael eu danfon ar gyfer rhai ceisiadau. | Anfodlon. Mae'r Cyngor yn anfodlon gyda'r ffordd y maent yn derbyn gwybodaeth / ymateb i ymholiad am nifer o resymau. Cred y Cyngor bod angen sicrhau ei bod yn derbyn ebost uniongyrchol a chopi o'r cynlluniau drwy'r post bob adeg.<br>Mae yna achlysuron pan nad yw hyn wedi digwydd pan bod ceisiadau yn cael ei hail gyflwyno. Dylid sicrhau bod proses ar gael i wneud yn siwr bod swyddogion cynllunio yn ymateb i ebyst a galwadau ffon i ymholiadau ac ateb cwestiynau sy'n codi yn eu cylch yn amserol.<br>Hefyd os oes cais yn cael ei ail gyflwyno dylai'r Cyngor gael gwybod beth sydd wedi newid yn y cais o gwbl. Os yw Cyngor tref yn gwrthwynebu cais, yna mi ddylie y cais fynd gerbron Pwyllgor Cynllunio y Sir, ac ni ddylid gael ei benderfynu gan Swyddog Cynllunio. | Nid oes rwystrau i gyflwyno sylwadau'r Cyngor dim ond i ni dderbyn y wybodaeth briodol gan y Cyngor Sir. | 1. Er mwyn gwella'r profiad o ddelio gyda cheisiadau cynllunio:<br>i. Dylai y Cyngor dderbyn ebost uniongyrchol am bob cais priodol i'r ardal a chopi o'r cynlluniau drwy'r post<br>ii. Dylai fod proses ar gael i sicrhau bod swyddogion cynllunio yn ymateb i ebyst a galwadau ffôn yn amserol i ateb cwestiynnau sy'n codi yn eu cylch<br>iii. os oes cais yn cael ei ail gyflwyno dylai'r Cyngor gael gwybod beth sydd wedi newid o'r cais gwreiddiol<br>iv. Os yw Cyngor Tref yn gwrthwynebu cais, yna mi ddylie cais fynd gerbron Pwyllgor Cynllunio y Sir, ac ni ddylid gael ei benderfynu gan Swyddogion Cynllunio. |

| Ydych chi'n glir beth ydi rôl cyngor cymuned / tref yn y broses cynllunio? | Ydych chi wedi derbyn hyfforddiant ar bolisiau cynllunio? | Sut ydych chi'n derbyn gwybodaeth am geisiadau cynllunio yn eich ardal? | Pa mor fodlon ydych chi gyda'r ffordd yr ydych yn derbyn gwybodaeth / ymateb i ymholiad? | Oes yna rwystrau i gyflwyno sylwadau'r cyngor cymuned / tref ar geisiadau cynllunio? | Beth hoffech ei weld yn digwydd i wella'r profiad o ddelio gyda cheisiadau cynllunio? |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydw | Bum ar gwrs cenedlaethol flynyddoedd yn ol pan oedd y Cynghorau Cymuned yn dod yn rhan o'r broses cynllunio | Ers mis Hydref 2016 mae'r Adran Cynllunio yn rhoi rhestr wythnosol o holl geisiadau y sir. Maent hefyd yn rhoi gwybodaeth o geisiadau Llanbedrog sydd wedi cael eu derbyn gyda bythefnos i ymateb. Cyn Hydref 2016 doedd dim gwybodaeth am geisiadau eraill - o bosib yn ffinio y plwyf ac yn gallu effeithio ar y plwyf neu'r plwyfion agosaf heb i'r cynghorwyr fod yn gwybod a'r Cynghorydd Sir. | Nid yw Cyngor Llanbedrog yn fodlon. Mae bodlonrwydd ar y system yn awr - mae ceisiadau plwyfi cyfagos yn cael ei cynnwys. Y peth hanfodol bwysig yw canlyniad pob cais gyda'r amodau. Bu hyn yn rhan o'r broses am flynyddoedd hyd y toriadau ariannol. Yn aml mae cais arall yr un lle yn cael ei gyflwyno pryd nad yw y Cyngor Cymuned yn gwybod canlyniad y cais gwreiddiol (nid ceisiadau diwygiedig). Mae gwybodaeth ar bob cais yn hanfodol i nweud dyfarniad teg i bob cais ac i fod yn gyson. | Oes. Y rhwystr mwyaf i gyflwyno sylwadau yw diffyg cael sgwrs gyda'r swyddogion cynllunio mewn mater o ansicrwydd. Nid yw cynllun y gyfnewidfa gyfathrebu yn gymorth (dim bai ar y staff) ac mae'n annodd cael gafael ar swyddogion. | Hoffai'r Cyngor gael yr hen drefn - adran gynllunio yn anfon cais a chanlyniad y cais gyda'r amodau. Buasai'n fuddiol i gael canlyniadau Pen Llyn gan fod y cyngor yn cael syniad o gysondeb datblygiadau bob plwyf. Mae'r cyswllt gyda'r swyddogion yn gymorth ond mae'r drefn o orfod mynd drwy Penrhyndeudraeth a'r cwestiynau yn rwystr mawr - yn aml mae eisiau aros mewn rhes am amser maith. Mewn llawer achos dim ond munud fach sydd angen fel ateb i'r ymholiad. Mae angen gwell. |
| Ydw | Dim ond y clerc | Drwy'r bost i'r clerc yn uniongyrchol gan y Cyngor. Bydd y clerc wedyn yn rhannu'r wybodaeth gydag aelodau'r Cyngor Cymuned. | Bodlon | Nac oes | Nid yw'r Cyngor Cymuned yn derbyn lawer o geisiadau o gwbl am fod y Parc Cenedlaethol yn delio a cheisiadau o fewn y Parc. Mae'r profiad hyd yma wedi bod yn foddhaol. |